

Rhifedd

Deunyddiau enghreifftiol

Blwyddyn 3: Gardd Owain (1)

Dylunio a thechnoleg

- Datblygu a chyfleu eu syniadau dylunio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddefnyddio TGCh a modelau lle bo hynny'n briodol.
- Mesur, marcio, torri, siapio, uno, pwyso a chymysgu ystod o ddeunyddiau a chynhwysion, gan ddefnyddio offer, cyfarpar a thechnegau priodol

Sgiliau rhifedd

- Defnyddio haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol, e.e. $\frac{1}{2}$ o 20.


Gwybodaeth gefndirol:

Mae'r dysgwyr wedi bod yn cynllunio eu gardd dosbarth ar gyfer y gystadleuaeth arddio flynyddol. Penderfynodd y dysgwyr eu bod nhw am i'r ardd gynrychioli baner Owain Glyndŵr, sef enw'r dosbarth. Penderfynon nhw y byddai'n rhaid iddyn nhw rannu'r ardd yn chwarteri. Gwnaeth y dysgwyr gynllun o sut roedden nhw am i'r ardd edrych.


Cwestiynau allweddol:

- Os yw'r gwely blodau yn mesur _____ cm sut gallwn ni gyfrifo faint mae hanner ohono yn ei fesur?
- Sut gallwn ni gael hyd i'r pwynt hanner ffordd?
- Sut gallwn ni rannu'r gwely blodau yn chwarteri?
- Sawl chwarter fydd gennym ni i gyd?


Rhifedd Deunyddiau enghreifftiol



Rwy'n gwybod bod 18 yn 10 ac 8. Hanner 10 yw 5 a hanner 8 yw 4 felly mae'n rhaid i hanner 18 fod yn 9. Nawr galla i fesur ble mae 9cm.



Mae'n rhaid i mi fesur ar hyd y ddwy ochr a'u haneru. Bydd yn fy helpu i'w rannu'n chwarteri fel yn y faner. Hanner 24 yw 12 a hanner 11 yw ... 5½ oherwydd hanner un yw hanner, ac ryw'n gwybod mai 5 yw hanner 10.



Rhifedd

Deunyddiau enghreifftiol

Blwyddyn 4: Y jiwbilî

Hanes

Sgiliau rhifedd

- Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10 000.
- Canfod gwahaniaethau o fewn 1 000.
- Adio rhif 2 ddigid a thynnu rhif 2 ddigid o rif 3 digid gan ddefnyddio dull ysgrifenedig priodol.

Gwybodaeth gefndirol:

Yn ystod trafodaeth ddosbarth roedd y dysgwyr wedi ystyried yr wybodaeth yr oedden nhw am ei hymchwilio ar Frenhines Elisabeth II. Yna datblygodd y dysgwyr eu cwestiynau ymchwil eu hunain a defnyddio'r rhyngrwyd i gael hyd i'r wybodaeth berthnasol.

Disgrifiad o'r gweithgaredd:

Gan weithio mewn parau defnyddiodd y dysgwyr y rhyngrwyd i ateb eu cwestiynau. Cafodd y dysgwyr eu herio i gyfrifo'r gwahaniaethau gan ddefnyddio gweithrediadau mathemateg amrywiol.


Cwestiynau allweddol:

- Ym mha flwyddyn gafodd y Frenhines Elisabeth ei geni?
- Beth yw oedran y Frenhines?
- Beth oedd oedran Elisabeth pan gafodd hi ei chironi'n Frenhines?
- Ym mha flwyddyn gafodd hi ei chironi? Sawl blwyddyn yn ôl oedd hynny?

Rhifedd Deunyddiau enghreifftiol



Ganwyd Elisabeth yn 1926 a chafodd hi ei choroni'n Frenhines pan oedd hi'n 26 mlwydd oed. Ym mha flwyddyn gafodd hi ei choroni?

Cafodd hi ei choroni yn 1952 oherwydd dwbl 26 yw 52, felly 1952!



Beth oedd oedran Elisabeth pan gafodd hi ei choroni'n Frenhines?

Ganwyd y Frenhines Elisabeth yn 1926. Mae'n 2012 nawr felly mae hi'n 86 mlwydd oed!



Rhifedd

Deunyddiau enghreifftiol

Blwyddyn 4: Gardd Owain (2)

Dylunio a thechnoleg

- Datblygu a chyfleu eu syniadau dylunio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddefnyddio TGCh a modelau lle bo hynny'n briodol.
- Mesur, marcio, torri, siapio, uno, pwyso a chymysgu ystod o ddeunyddiau a chynhwysion, gan ddefnyddio offer, cyfarpar a thechnegau priodol.

Sgiliau rhifedd

- Haneru rhifau 3 digid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau.

Gwybodaeth gefndirol:

Mae'r dysgwyr wedi bod yn cynllunio eu gardd dosbarth ar gyfer y gystadleuaeth arddio flynyddol. Penderfynodd y dysgwyr eu bod nhw am i'r ardd gynrychioli baner Owain Glyndŵr, sef enw'r dosbarth. Penderfynon nhw y byddai'n rhaid iddyn nhw rannu'r ardd yn chwarteri. Roedd y dysgwyr wedi mesur yr ardd, gan drafod ffracsiynau (haneri a chwarteri).


Cwestiynau allweddol:

- Sut gallwn ni gael hyd i'r pwynt hanner ffordd?
- Sut gallwn ni rannu'r gwely blodau yn chwarteri?
- Sawl chwarter fydd gennym ni i gyd?
- Sawl chwarter fydd yn hanner y blodyn?
- Os yw'r gwely yn mesur x sut gallwn ni ddarganfod beth mae hanner ohono yn ei fesur?


Rhifedd Deunyddiau enghreifftiol



I farcio hanner ffordd mae'n rhaid i ni fesur y gwely blodau a'i haneru.



Hanner 300 yw 150, hanner 50 yw 25 a hanner 9 yw $4\frac{1}{2}$ felly dyna $179\frac{1}{2}$ i gyd. Hanner y gwely yw $179\frac{1}{2}$ cm neu 179.5cm.



Plentyn A: Chwarter yw hanner hanner felly nesaf gallwn ni haneru $179\frac{1}{2}$ cm i'n helpu i wneud y chwarteri.

Plentyn B: Na, allwn ni ddim oherwydd byddai hynny'n ffordd anghywir. Mae'n rhaid i ni fesur lled y gwely a'i haneru.

Rhifedd

Deunyddiau enghreifftiol

Blwyddyn 4: Eger Hafren

Daearyddiaeth

Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau

- Mae'r dysgwyr yn astudio Eger Hafren ac yn creu taflen gwybodaeth twristiaid i bobl sydd am ymweld â'r digwyddiad.

Sgiliau rhifedd

- Darllen oriau a munudau ar gloc digidol 24 awr.
- Canfod symiau ffracsiynol drwy ddefnyddio ffeithiau hysbys am dablau, e.e. $\frac{1}{6}$ o 30cm.
- Defnyddio calendrau i gynllunio digwyddiadau.

Gwybodaeth gefndirol:

Drwy wers daearyddiaeth mae'r dysgwyr yn creu taflen i dwristiaid ar Eger Hafren. Bydd y daflen yn rhoi gwybodaeth i bobl am amserlenni'r don, maint y tonnau, cynghorion diogelwch ar gyfer syrffio'r don, cyfleusterau ar y safle a nifer yr ymwelwyr sy'n ymweld bob blwyddyn. Bydd y dysgwyr yn cael gwybodaeth am Eger Hafren drwy amrywiaeth o ffynonellau.


Disgrifiad o'r gweithgaredd:

Tra bo'r dysgwyr yn darllen ac yn cofnodi'r wybodaeth roedden nhw'n mynd i'w defnyddio yn y daflen, gofynnwyd rhai cwestiynau seiliedig ar fathemateg.

Cwestiynau allweddol:


- Os yw $\frac{1}{2}$ o 100 o bobl yn syrffio'r Eger Hafren y mis hwn, faint o bobl sydd wedi syrffio?
- Os yw $\frac{1}{6}$ o 72 o bobl yn teithio i weld yr Eger Hafren ar y bws, faint o bobl sy'n teithio ar y bws?
- Os yw $\frac{1}{9}$ o 81 o bobl sydd wedi ymweld â'r Eger Hafren yn dod o Gymru, faint o bobl o Gymru sydd wedi ymweld â'r Eger?
- Os yw $\frac{1}{4}$ o blant yn y dosbarth (28 o blant) yn cael caniatâd i ymweld ag Eger Hafren, faint o blant sy'n mynd ar y daith?
- Beth yw'r amser cynharaf y bydd Eger Hafren yn cyrraedd y mis hwn?
- Beth yw'r amser hwyraf y bydd Eger Hafren yn cyrraedd y mis hwn?
- Mae pobl am syrffio Eger Hafren ar ôl 19:00, beth yw'r amser cynharaf y gallen nhw wneud hynny? Beth yw'r amser hwyraf?
- Faint o'r gloch yw hi nawr? Pryd mae ton Eger Hafren nesaf?

Rhifedd Deunyddiau enghreifftiol



Os oedd $\frac{1}{9}$ o 81 o bobl a fu'n ymweld â'r Eger yn dod o Gymru, faint o bobl o Gymru oedd wedi ymweld â'r Eger?

Galla i ddefnyddio fy nhabl lluosu 9, $9 \times 9 = 81$, felly roedd 9 o bobl yn dod o Gymru.




Os yw $\frac{1}{4}$ o'r plant yn y dosbarth (28 o blant) yn cael caniatâd i ymweld ag Eger Hafren, faint o blant sy'n mynd ar y daith?

I gael hyd i chwarter galla i ddefnyddio fy ffeithiau tabl lluosu 4 neu galla i haneru a haneru eto.

Faint o'r gloch yw hi nawr? Pryd mae'r don Eger Hafren nesaf?

Mae'n 2:20pm nawr, os yw $2 + 12 = 14$, yna mae'n 14:20. Bydd y don nesaf nos Sadwrn am 19:25.



Rhifedd

Deunyddiau enghreifftiol

Blwyddyn 4/5: Esgyrn

Gwyddoniaeth

Cyd-ddibyniaeth organebau

- Mae plant yn astudio enwau, safleoedd, swyddogaethau a meintiau cymharol prif organau bodau dynol.

Sgiliau rhifedd

- Lluosi a rhannu rhif 2 ddigid â rhif 1 digid (Blwyddyn 4).
- Lluosi a rhannu rhif 3 digid â rhif 1 digid (Blwyddyn 5).

Gwybodaeth gefndirol:

Drwy wers gwyddoniaeth roedd y dysgwyr yn ymchwilio'r sgerbwd ac yn darganfod gwybodaeth am yr esgyrn yn y corff dynol.

Disgrifiad o'r gweithgaredd:


Yn dilyn ymchwil cychwynnol gan y dysgwyr gofynnwyd rhai cwestiynau mathemategol iddyn nhw yn seiliedig ar yr hyn roedden nhw wedi'i ddarganfod.

Cwestiynau allweddol:


- Faint o esgyrn sydd yn y llaw ddynol?
- Faint o esgyrn llaw sydd yn y corff dynol?
- Faint o esgyrn llaw sydd yn eich teulu?
- Faint o esgyrn llaw sydd yn eich grŵp?
- Faint o esgyrn llaw sydd yn ein dosbarth?
- Faint o esgyrn sydd yn eich corff?
- Faint o esgyrn sydd yn eich grŵp?
- Faint o esgyrn sydd yn ein dosbarth?

Rhifedd
Deunyddiau enghreifftiol

Sawl esgyrn llaw sydd yn eich teulu?



Sawl esgyrn sydd yn eich grŵp?



Mae 1236 o esgyrn i gyd yn fy ngrŵp.
Sawl esgyrn syddi i gyd yn ein dosbarth?
Gallwn i ddweud 206 x 30 neu gallwn i luosi 1236 â 5.

Rhifedd

Deunyddiau enghreifftiol

Blwyddyn 4/5: Codi arian

Sgiliau daearyddiaeth

Dysgu am fyw mewn gwledydd eraill: dwy gymdogaeth gyferbyniol mewn gwledydd ar wahanol lefelau o ddatblygiad economaidd y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Dysgu am fyw yn fy myd fy hun: gofalu am leoedd ac amgylcheddau a phwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang.

ABCh

Datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Cafodd y gweithgaredd ei gynnal gyda dosbarth Blwyddyn 5 ond gellir ei symleiddio'n hawdd i weithio ar sgiliau rhifedd Blynnyddoedd 3/4.

Sgiliau rhifedd

- Cyfrifo symiau ffracsiwn yn seiliedig ar ffracsiynau unedol.
- Adio a thynnu rhifau sy'n cynnwys 2 le degol yng nghyd-destun arian.
- Darllen clorian sy'n cynnwys 10 ymraniad cyfartal rhwng pob prif uned.

Gwybodaeth gefndirol:

Fel rhan o'u gwaith ar leoliadau cyferbyniol, mae'r dosbarth yn darllen y stori 'Down the Pan' o'r llyfr *On the Money* (ar gael yn rhad ac am ddim o www.pfeg.org.uk).

Disgrifiad o'r gweithgareddau:

1. Roedden ni wedi darllen y stori 'Down the Pan' a thrafod pam roedd y dysgwyr yn teimlo bod angen codi arian i'r ysgol yn Affrica a pha mor bwysig yr oedd hi i bawb allu defnyddio'r toiled. Trafodwyd pa mor ofnadwy fyddai heb gael toiled i'w ddefnyddio yn yr ysgol.
2. Ar ôl y stori trafodwyd sut i godi arian ac roedd y dysgwyr wedi awgrymu pe byddwn ni'n codi ychydig o arian ar gyfer prosiect tebyg, byddai gwerthu teisennau yn ffordd dda o wneud arian.
3. Cafodd pob grŵp o 2 neu 3 dysgwr 2 rysâit a rhestr o gynhwysion ac roedd rhaid iddyn nhw benderfynu p'un ai i wneud teisennau cwpan neu deisennau siocled crensiog a pha rai fyddai'n gwerthu orau. Yna roedd rhaid iddyn nhw benderfynu pa gynhwysion i'w prynu ac ystyried p'un ai i brynu:
 - siocled masnach deg neu'r siocled rhataf yn yr archfarchnad
 - menyn organig, menyn heb fod yn organig neu margarin coginio
 - wyau maes neu wyau rhad yr archfarchnad
 - bagiau o gynhwysion o feintiau gwahanol.

Roedd y dysgwyr wedi defnyddio gwefannau'r archfarchnad i gymharu prisiau a gwneud eu dewisiadau. Roedd rhaid iddyn nhw esbonio pam eu bod nhw wedi gwneud eu dewisiadau.

4. Roedd rhaid iddyn nhw gyfrifo faint o deisennau roedden nhw'n mynd i'w gwneud, faint o'r cynhwysion yr oedd angen iddyn nhw eu prynu a beth oedd y gost. Ar ôl cael y cyfanswm ar gyfer eu teisennau, roedd rhaid iddyn nhw benderfynu ar bris teg i werthu'r teisennau a chyfrifo faint o elw y gallen nhw ei wneud.